



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Arloesi

## Markes International Ltd

Gwneuthurwr arbenigol yn symbylu newid mawr mewn effeithlonrwydd i labordai dadansoddol ledled y byd gyda chymorth cefnogaeth arloesi Llywodraeth Cymru.



Mae Markes International yn datblygu a chynhyrchu technoleg arloesol ar gyfer dadansoddi organig hybrin

Mae'r gweithgynhyrchydd arbenigol, Markes International (Llantrisant, y DU), yn trawsnewid y modd y mae labordai dadansoddol ledled y byd yn gweithredu, diolch i gynnyrch arloesol a ddatblygwyd gyda chefnogaeth cyllid arloesi gan Lywodraeth Cymru.

Fel estyniad i'w ddewis craidd o gynhyrchion, sydd wedi hen ennill eu plwyf, mae'r cwmni bellach wedi cynnwys roboteg sy' arwain y farchnad i'w harlwy, er mwyn gallu awtomeiddio'n llwyr y broses o baratoi a dadansoddi samplau mewn sawl modd chwistrellu. Mae hyn yn darparu newid sylfaenol mewn effeithlonrwydd gweithredu ar gyfer labordai sy'n defnyddio cromatograffaeth nwy- sbectromedreg más (GC-MS) i ddadansoddi solidau, hylifau a nwyon.

Ac yntau'n ddelfrydol ar gyfer labordai amgylcheddol, bwyd, persawr a chlinigol, gwnaeth y cynnyrch arloesol newydd hwn, a elwir yn Centri®, ei ymddangosiad cyntaf ar y farchnad fydeang ym mis Ebrill 2018 mewn sioe fasnach allweddol i'r diwydiant yn yr Almaen. Creodd hyn sawl archeb gan gwsmeriaid oedd yn fabwysiadwyr cynnar yn ogystal â diddordeb rhyngwladol

### Llwyddiannau allweddol:

- Buddsoddiad Ymchwil a Datblygu sylweddol â chyfanswm dros £80,000 mewn arian grant – i gefnogi mwy o fusnesau Cymru a'r byd ym maes ymchwil ac arloesi fel gyrwyr ffyniant a thwf
- Sawl archeb a diddordeb bydeang wedi'i greu dros y misoedd cyntaf ers lansio'r cynnyrch – cefnogi allforion a masnach
- Twf parhaus i'r cwmni drwy arloesi (o ran maint a throsiant) – gan hybu cystadleuaeth drwy gyfrwng gweithlu sgiligar yn unol ag uchelgais Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 er budd Cymru fwy ffyniannus a chymunedau mwy cynaliadwy

sylweddol – yn unol â strategaeth hirdymor y cwmni ar gyfer twf ac ymestyn ei allu i feysydd newydd drwy barhau i arloesi'n barhaus ym maes cynnyrch newydd.

Ar ddiwedd 2018, enillodd Centri Markes wobwr arloesi bwysig fel system samplo a chrynhoi aml-ddull ar gyfer GC-MS. Dyfarnwyd y wobwr gan y cylchgrawn "The Analytical Scientist" yn eu hadolygiad Innovation Awards 2018: Strokes of Genius. Yn ôl y beirniaid: "Nid yw hi bob amser yn amlwg ymlaen llaw pa rai o blith technegau amrywiol ar gyfer paratoi samplau ar gyfer dadansoddi anweddau fydd yn rhoi'r canlyniadau gorau – mae'r offeryn hwn yn cyfuno'r cyfan."

O'r syniad dechreuol a'r cyfnod profi hyd at y lansiad masnachol, mae Markes International Ltd wedi derbyn cefnogaeth ariannol sylweddol gan dîm arloesi Llywodraeth Cymru. Dros y blynyddoedd, derbyniodd y cwmni amryw o gynigion grantiau i ddatblygu'r cynhyrchion a'r prosesau nesaf, gan gynnwys cyllid o fwy nag £80,000 gan Smart Cymru ar gyfer ymchwil diwydiannol. Dilynwyd hyn gan gais a dderbyniwyd i dderbyn rhagor o gyllid Datblygu Arbrofol Smart Cymru i ddatblygu'r prototeip cyn-cynhyrchu hyd at y cynnyrch gorffenedig.

Cafodd twf y cwmni o Gymru ei warchod rhag peryglon y dyfodol ymhellach drwy ei bartneriaeth ers 2012 â chwmni amlwladol a berchnogir gan Almaenwyr. Mae hefyd wedi cynyddu'r gweithlu yn Llantrisant o 15 o bobl yn 2005 i 120 aelod sgilgar o staff yn 2018 – yn unol ag uchelgais Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, sy'n anelu at greu Cymru fwy ffyniannus.

"Twf drwy arloesi yw hanfod bywyd ein cwmni. Mae'r gefnogaeth ariannol a gawsom gan Lywodraeth Cymru yn ystod cyfnodau amrywiol y prosiect hwn wedi ein galluogi i ddefnyddio ymchwil a datblygu cynnyrch newydd i symud y busnes i fod yn creu elw'n gyflym, ac i agor marchnadoedd newydd i ni wrth i ni dyfu. Dyma bartneriaeth yr ydym ni'n llawn fwriadu parhau â hi fel rhan o'r rhaglen barhaus o ymchwil a datblygu."

**Dr Massimo Santoro, Cyfarwyddwr yr Uned Fusnes, Markes International Ltd**

**Busnes | Business  
Cymru | Wales**

Ffyniant i Bawb: cynllun gweithredu economaidd yw strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru. Dysgwch ragor am y cyllid a'r gefnogaeth sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru:

03000 6 03000 | [innovation@llyw.cymru](mailto:innovation@llyw.cymru)  
[businesswales.gov.wales/innovation/cy](https://businesswales.gov.wales/innovation/cy)



UNDEB EWROPEAIDD  
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Cronfa Datblygu  
Rhanbarthol Ewrop  
European Regional  
Development Fund**